**Y Pwyllgor Deisebau**
**Petitions Committee**

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

## Sesiwn hawl i holi y Pwyllgor Deisebau ar Reoli Sŵn o Dyrbinau Gwynt, 28 Chwefror 2012

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Bydd Aelodau'r Cynulliad yn gwneud y gwaith hwn mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys eistedd ar bwyllgorau trawsbleidiol y Cynulliad i drafod materion penodol.

Mae'r Pwyllgor Deisebau'n un o'r Pwyllgorau hynny, ac mae'n cynnwys yr Aelodau a ganlyn:

William Powell AC (Cadeirydd), Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Bethan Jenkins AC, Plaid Cymru
Russell George AC, Ceidwadwyr Cymreig
Joyce Watson AC, Llafur

Mae'r Pwyllgor Deisebau'n ystyried deisebau a gyflwynir gan y cyhoedd ac eraill. Un o'r deisebau sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd yw honno ar Rheoli Sŵn o Dyrbinau Gwynt. Fel rhan o'i waith ar y ddeiseb hon, mae'r Pwyllgor wedi penderfynu cynnal cyfarfod ffurfiol, gan gynnwys sesiwn hawl i holi, yng Nghaerfyrddin rhwng 9 a.m. a 11 a.m. ar 28 Chwefror. Diben y sesiwn hawl i holi yw clywed safbwyntiau gan gynifer â phosibl o bobl ynglŷn â'r mater o sŵn o dyrbinau gwynt.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8393
E-bost / Email: petition@wales.gov.uk / deisebau@cymru.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

Gan mai busnes Pwyllgor ffurfiol fydd y cyfarfod, bydd yn cael ei recordio a chaiff trawsgrifiad llawn o'r trafodaethau ei gynhyrchu. Gall y rhai a fydd yn cymryd rhan ddewis siarad yn Gymraeg neu Saesneg a darperir cyfleusterau cyfieithu ar y pryd.

Cynhelir y cyfarfod yn:
Ystafelloedd Flemming
Canolfan Halliwell
Coleg y Drindod
Caerfyrddin
SA31 3EP

I archebu sedd yn y cyfarfod, cysylltwch â llinell archebu'r Cynulliad drwy e-bost yn archebu@cymru.gov.uk, neu dros y ffôn ar 0845 010 5500 neu ffôn testun ar 0845 010 5678.